

Digimap for Schools

Barddoniaeth Tirwedd

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth/Saesneg Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Barddoniaeth Tirwedd

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Darllen nodweddion tirwedd ar fapiau	Unrhyw le ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth/Sgiliau	Darllen a dehongli mapiau/tynnu llun ardaloedd ar fapiau/defnyddio allweddol/defnyddio wyth pwynt prifol/defnyddio cyfeiriadau grid i ddod o hyd i leoedd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Daearyddiaeth: defnyddio mapio digidol i ddisgrifio nodweddion a astudiwyd. Disgrifio a deall agweddau allweddol daearyddiaeth ddynol a ffisegol. Saesneg: datblygu amrywiaeth o waith ysgrifenedig, yn enwedig gramadeg a geirfa.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Daearyddiaeth: defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno. Amlygu a disgrifio nodweddion naturiol a dynol. Saesneg: ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau. Fframwaith Llythrennedd: defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau a brawddegau penodol i bwnc.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 2-07a, 2-10a, 2-14a Saesneg: ENG 2-27a; ENG 2-31a

Gweithgaredd Dewis cilometr sgwâr ar fap ac edrych arno'n fanwl i gofnodi cliwiau am y dirwedd; casglu geirfa a'i defnyddio i ysgrifennu cerdd ddisgrifiol fer am yr olygfa mewn cyfeiriadau gwahanol o ganol y grid hwnnw.

Cyflwyniad Mae *Digimap for Schools* yn rhoi llawer o wybodaeth am dirwedd Prydain Fawr trwy ei fapiau amrywiol ar raddfeydd gwahanol a'r allweddol mapiau sy'n cyd-fynd â nhw. Mae'r mapiau hyn yn dangos y tir yn fanwl: llystyfiant, uchder a goledd y tir; defnydd tir; nodweddion dŵr; nodweddion dynol a llawer mwy. Yn y gweithgaredd hwn, mae angen i'r disgyblion ddefnyddio'r mapiau i'w helpu i ddisgrifio lle, casglu geirfa ddaearyddol berthnasol a defnyddio cyfeiriadau cwmpawd i'w helpu i ddod o hyd i nodweddion a gwneud sylw arnynt.

Gellir cyflawni'r gweithgaredd cyntaf fel dosbarth, yn unigol neu mewn paru. Gellir gwneud yr ail weithgaredd mewn paru neu'n unigol fel gwaith cartref.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd gam ymhellach

- Gallwch greu arddangosfa o'r mapiau a'r cerddi.
- Gwnewch y gweithgaredd hwn trwy waith maes gan ddefnyddio cwmpawdau a mapiau graddfa fawr wedi'u hargraffu o'r ardal.
- Gallwch gymharu cerddi a disgrifiadau o sgwariau grid gwahanol mewn tirweddau tebyg a gwahanol.

Dolenni ar y we

- Mapiau a Straeon <http://www.geography.org.uk/projects/primaryhandbook/mapsandstories/>
- *Geography Poetry Corner* www.sln.org.uk/geography/pop/Default.htm

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_cynradd
f1.0 Awst 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>


Dalen cyfarwyddo barddoniaeth tirwedd

Beth allwn ni ei ddarganfod am dirwedd o fap? Sut gall map ein helpu ni i'w ddisgrifio? Pa mor bwysig yw'r geiriau rydym yn eu dewis?

Gweithgaredd 1 – Ymarferion cynhesu barddoniaeth

Agorwch *Digimap for Schools* a dewiswch le yn eich cymdogaeth sy'n adnabyddus. Closiwch a thrafodwch rai o nodweddion penodol y lle hwn gan ddefnyddio'r allwedd. Wedyn mae angen i chi lacio ychydig a thrafod nodweddion mwy cyffredinol y lle. Gweithiwch drwy'r ddalen ymarferion cynhesu barddoniaeth.

Gweithgaredd 2 – Barddoniaeth Gyfeiriadol

- Dewiswch leoliad (gall fod yn gyfagos neu unrhyw le ym Mhrydain Fawr). Trowch y llinellau grid cenedlaethol ymlaen 
- Tynnwch lun o gwmpas unrhyw un o'r sgwariau ar y map. I wneud hyn, agorwch y bar offer *Annotations* (anodiadau) a dewiswch liw amlinellol, gan ddewis tryloywder 100%. Dewiswch '*Draw an area*' (tynnu llun ardal) a dewiswch '*Draw an area with straight edges*' (tynnu llun ardal gydag ymylon syth). Cliciwch ar un gornel o'r sgwâr ac yna pob cornel arall yn eu tro gan glicio ddwywaith i orffen. Trowch y llinellau grid i ffwrdd. Gan ddefnyddio'r saethau '*move feature*' (symud nodwedd) o dan '*modify*' (addasu), cliciwch ar y sgwâr a'i symud i ble rydych chi eisiau iddo fod. Dyma eich ardal ddewisol.
- Dewiswch '*Draw line*' (tynnu llinell), yna tynnwch linellau croeslinol. Caewch y bar offer. Mae'r ardal hon yn gweddu i'r diagram ar eich taflen waith. Defnyddiwch yr offeryn cyfeirnod grid ac ysgrifennwch gyfeirnod grid canol y sgwâr ar eich taflen waith.



- Edrychwch ar bob triongl o'r map yn eu tro a nodwch beth y gallwch ei ddarganfod ar y daflen waith. Closiwch a llaciwch i weld y mapiau gwahanol. Ychwanegwch ychydig o ansoddeiriau i'ch helpu i lunio disgrifiad ac ystyriwch eich synhwyrâu eraill. Er enghraifft, a yw hwn yn lle swnllyd neu dawel? Beth y gallech ei glywed? Beth allech gyffwrdd ag ef, er enghraifft, adeiladau, porfa, dŵr, carreg neu greigiau? Defnyddiwch eich dychymyg daearyddol.
- Ysgrifennwch gerdd am y lle hwn gan ychwanegu cyfeiriad ym mhob llinell neu gwpl o linellau, er enghraifft, 'I'r gogledd/de/dwyrain/gorllewin, gallaf weld...'. Ychwanegwch cymaint o ddisgrifiadau ag y gallwch. Cadwch eich map a'i argraffu gan ddangos eich sgwâr yn glir.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Ymarferion Cynhesu Barddoniaeth: Syniadau cyflym i ddisgrifio lle

Enw _____

Meddyliwch am dri theitl un gair gwahanol ar gyfer cerdd am y lle hwn.

Dywedwch dri pheth a allai ddigwydd yma.

Meddyliwch am dri pheth y gallech eu clywed, eu harogli neu eu cyffwrdd yn y lle hwn.

Disgrifiwch mewn tri gair rywbeth y gallwch neu y gallech ei weld ar raddfa fawr, hynny yw, wedi closio.

Disgrifiwch mewn tri gair nodweddion cyffredinol y lle hwn ar raddfa lai, hynny yw, wedi llacio.

Dewiswch un gair i ddisgrifio sut byddech yn teimlo o bosibl yn y lle hwn.

Pa nodweddion y mae'r haul yn machlud/codi y tu ôl iddynt?

Ysgrifennwch o leiaf un frawddeg o gyflythreniad i ddisgrifio'r lle.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Taflen waith Barddoniaeth Gyfeiriadol

Astudiwch y dirwedd a ddangosir ar y map a disgrifiwch yr hyn y gallech ei weld petaech chi yno.

